**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Pwyllgor y Rhaglen Graffu

**Cyfarfod Aml-leoliad – Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Mawrth, 18 Ebrill 2023 am 4.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | R Fogarty | V A Holland |
| M Jones | H Lawson | W G Lewis |
| P N May | F D O'Brien | S Pritchard |
| M S Tribe | T M White | |

**Aelod(au) Cyfetholedig Statudol**

Beth Allender
Elizabeth Lee

**Cynghorwyr sy'n Aelod(au) Cyfetholedig**

C A Holley
S M Jones
L R Jones

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Paul Thomas | Rheolwr Partneriaeth Integreiddio Cymunedol |
| Jane Whitmore | Comisiynydd Arweiniol Strategol |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**

Y Cyng Alyson Pugh – Aelod y Cabinet dros Les
Y Cyng. Hayley Gwilliam - Aelod y Cabinet dros Gefnogi Cymunedau
Y Cyng. Andrea Lewis - Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau

Trudi Meyrick, Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru
Mark Brier, Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru
James Ratti, Prif Arolygydd, Heddlu De Cymru
Eve Davis, Uwch-arolygydd (Cymunedau a Phartneriaeth), Heddlu De Cymru
Jessica Williams, Rheolwr Diogelwch Cymunedol (Abertawe/Castell-nedd Port Talbot), Heddlu De Cymru

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig: P R Hood-Williams

## 98 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â’r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorwyr L R Jones, M Jones, S M Jones, H Lawson, W G Lewis ac S Pritchard gysylltiad personol â Chofnod 102 - Craffu ar Drosedd ac Anhrefn - Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Abertawe Mwy Diogel.

## 99 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 100 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 14 Mawrth, 2023 a Phwyllgor Arbennig y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 20 Mawrth, 2023 fel cofnod cywir.

## 101 Cwestiynau gan y cyhoedd

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

## 102 Craffu ar Drosedd ac Anhrefn - Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Abertawe Mwy Diogel

Fel Pwyllgor Craffu ar Drosedd ac Anhrefn dynodedig y cyngor, cyfarfu Pwyllgor y Rhaglen Graffu i drafod perfformiad Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Abertawe Mwy Diogel, gyda'r cyngor ac arweinwyr yr Heddlu. Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr y cyngor: Aelod y Cabinet dros Les, Aelod y Cabinet dros Gefnogi Cymunedau, Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau, Comisiynydd Arweiniol Strategol, Rheolwr Partneriaeth Integreiddio Cymunedol, a chynrychiolwyr Heddlu De Cymru: Trudi Meyrick, Prif Uwch-arolygydd, Mark Brier, Uwch-arolygydd, James Ratti, Prif Arolygydd, Eve Davis, Uwch-arolygydd (Cymunedau a Phartneriaeth), a Jessica Williams, Rheolwr Diogelwch Cymunedol (Abertawe/Castell-nedd Port Talbot). Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr am ddarparu adroddiadau ysgrifenedig/papurau gan fyfyrio ar berfformiad y Bartneriaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gweithgareddau penodol a blaenoriaethau strategaeth Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel ddrafft ar gyfer 2023-26 a Strategaeth Trais Abertawe yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ddrafft 2023-26.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Les fod yr Adroddiad Blynyddol yn amlygu sut mae asiantaethau a phartneriaid lleol wedi cydweithio'n dda i wneud Abertawe'n fwy diogel a lleihau'r ofn o droseddu yn ystod 2022. Fodd bynnag, fel partneriaeth,

cydnabuwyd bod angen gwneud gwaith o hyd i adeiladu ar ein llwyddiant a chanolbwyntio ar heriau newydd.

Cyfeiriodd Aelod y Cabinet dros Les at y prif ffocws sef parhau i leihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, mynd i'r afael â'r defnydd o sylweddau, ceisio lleihau aildroseddu a chefnogi ein pobl ifanc a bregus rhag ymddygiad eithafol a threisgar.

Byddai Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel yn parhau i fod yn ymrwymedig i fynd i'r afael â throseddau casineb o bob math, a bydd yn parhau i sicrhau bod Abertawe yn lle sy'n sefyll yn erbyn anoddefgarwch, casineb ac eithafiaeth. Mae llawer o'r materion trosedd ac anhrefn y bydd Abertawe Mwy Diogel yn ceisio mynd i'r afael â nhw yn cynnwys ffactorau sylfaenol sy'n aml yn gysylltiedig â bod yn agored i niwed a chamfanteisio.

Cyfeiriodd at y Blaenoriaethau Diogelwch Cymunedol ar gyfer 2023 i 2026, gan nodi'r chwe blaenoriaeth allweddol sef blaenoriaethau strategol, bwriadau a'r canlyniadau.  Mae'r blaenoriaethau hyn yn cydnabod bod natur trosedd yn newid. Mae'n nodi'r dull o fynd i'r afael â throseddau niwed cudd fel trais domestig, camfanteisio'n rhywiol ar blant a throseddau cyfundrefnol difrifol a thrais difrifol. Mae gwaith yn parhau ar gynlluniau gweithredu unigol ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau.

Bydd cynnydd yn cael ei fonitro bob chwarter gan Grŵp Llywio Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel. Y gobaith yw y bydd cyflawni nodau'r bwriadau strategol ar gyfer pob blaenoriaeth yn gallu gwella hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd mewn plismona lleol a phartneriaid diogelwch cymunedol er mwyn gwneud Abertawe'n fwy diogel.

Roedd cwestiynau a thrafodaeth y Pwyllgor ynghylch perfformiad Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Llywodraethu sy'n ymwneud yn benodol â threfniant cyd-gadeirio'r Bartneriaeth sy'n gyfrifol am arwain a rheoli Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel.
- Adnoddau'r bartneriaeth a meintioli adnoddau/gwariant.
- Blaenoriaethau a chyflawniadau economi gyda'r hwyr a chyda'r nos; Statws Baner Borffor; gweithio mewn partneriaeth gydag Ardal Gwella Busnes Abertawe
- Heriau a mentrau ymddygiad gwrthgymdeithasol (beiciau oddi ar y ffordd).
- Troseddau casineb, cymharu setiau data a mentrau rhagweithiol.
- Cydlyniant cymunedol, integreiddio a chyflawniadau.
- Troseddau rhywiol/treisio, mentrau a chyflawniadau.
- Aflonyddwch Mayhill ac amserlenni ar gyfer cyhoeddi'r canfyddiadau a'r argymhellion yn dilyn adolygiad annibynnol gan yr Heddlu o'r ymateb plismona.
- Ymgysylltu â'r gymuned a mentrau/llwyddiannau, defnydd o gydgynhyrchu. llwyddiannau a blaenoriaethau m mentrau camddefnyddio sylweddau (Prosiect Adder)

Diolchodd y Cadeirydd i Aelodau'r Cabinet, Swyddogion a chynrychiolwyr Heddlu De Cymru am yr wybodaeth a ddarparwyd ac am yr ymateb i gwestiynau.

**Penderfynwyd** y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Gyd-gadeiryddion Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel gan adlewyrchu safbwyntiau'r Pwyllgor.

## 103 Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Datblygu ac Adfywio (Y Cynghorydd Chris Holley, Cynullydd)

Darparodd y Cynghorydd C A Holley adroddiad a oedd yn crynhoi gwaith y Panel Craffu Perfformiad Datblygu ac Adfywio dros y flwyddyn ddiwethaf, a materion allweddol y mae'r Panel wedi bod yn canolbwyntio arnynt.

**Penderfynwyd** nodi Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad mewn perthynas â'r Panel Craffu Perfformiad Datblygu ac Adfywio.

## 104 Aelodaeth Paneli Craffu a Gweithgorau.

**Penderfynwyd** cytuno ar aelodaeth y Paneli a'r Gweithgorau, fel yr adroddwyd.

## 105 Rhaglen Waith Craffu

Cyflwynodd y Cadeirydd y Rhaglen Waith Craffu gytunedig ar gyfer 2022/23 y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am ei monitro.

Y prif eitemau sydd wedi’u hamserlennu ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 16 Mai yw:

- Craffu Cyn Penderfynu: Ailddatblygu RhGA7 277-278 Stryd Rhydychen - Prosiect Hwb Cymunedol.
- Adolygiad o'r flwyddyn.

Dywedodd Arweinydd y Tîm Craffu, er mwyn cryfhau'r broses adolygu, hunanwerthuso a myfyrio, mae arolwg wedi'i anfon at yr holl Gynghorwyr yn gwahodd barn ar y ffordd y mae Craffu wedi gweithio dros y flwyddyn ddiwethaf.

## 106 Llythyrau Craffu

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Lythyrau Craffu' er gwybodaeth.

## 107 Dyddiad ac amser cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddyddiad ac amser Cyfarfodydd y Panel/Gweithgor Craffu sydd ar ddod, er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.35pm

**Cadeirydd**